

DOCUMENT RESUME

ED 117 962

FL 007 323

AUTHOR Williams, Ina Tudno  
 TITLE Adults Learning Welsh (A Study in Motivation). Pamphlet No. 13.  
 INSTITUTION Wales Univ., Aberystwyth. Univ. Coll. of Wales.  
 PUB DATE 65  
 NOTE 29p.; In Welsh

EDRS PRICE MF-\$0.83 HC-\$2.06 Plus Postage  
 DESCRIPTORS Adult Learning; \*Adult Students; Bilingualism; \*Course Content; Language Instruction; Language Role; Language Usage; \*Learning Motivation; News Media; \*Second Language Learning; Social Factors; Student Motivation; Television Viewing; Verbal Communication; Vocabulary; \*Welsh  
 IDENTIFIERS \*Wales

ABSTRACT

This pamphlet is a report of a study of motivation among adults learning Welsh in Wales. It is claimed that the situations in which a language is likely to be used and the linguistic aim of the learners should be taken into consideration when the nature of the vocabulary to be included in a second language course is determined. Recent research work in vocabulary selection for second-language learning in France, Canada, and Ireland is reviewed. The study aimed at discovering, by means of a questionnaire issued to 113 classes of adults learning Welsh, the purpose for which the language was being learned and the situations in which the newly acquired command of the language is most likely to be used. It was found that the most frequently mentioned reasons were concerned with a desire to be able to follow news and other programs on television in Welsh and to be able to participate in social intercourse through the medium of the language. It is recommended that the planners of courses in Welsh as a second language for adults pay special attention to the vocabulary needed for understanding television news bulletins and for understanding and participating in everyday conversations among Welsh-speaking friends. (Author/TL)

\*\*\*\*\*  
 \* Documents acquired by ERIC include many informal unpublished \*  
 \* materials not available from other sources. ERIC makes every effort \*  
 \* to obtain the best copy available. Nevertheless, items of marginal \*  
 \* reproducibility are often encountered and this affects the quality \*  
 \* of the microfiche and hardcopy reproductions ERIC makes available \*  
 \* via the ERIC Document Reproduction Service (EDRS). EDRS is not \*  
 \* responsible for the quality of the original document. Reproductions \*  
 \* supplied by EDRS are the best that can be made from the original. \*  
 \*\*\*\*\*

ED1117962

CYFADRAN ADDYSG COLEG PRIFYSGOL  
CYMRU, ABERYSTWYTH

*Pamffled 13*

U.S. DEPARTMENT OF HEALTH,  
EDUCATION & WELFARE  
NATIONAL INSTITUTE OF  
EDUCATION

THIS DOCUMENT HAS BEEN REPRODUCED EXACTLY AS RECEIVED FROM THE PERSON OR ORGANIZATION ORIGINATING IT. POINTS OF VIEW OR OPINIONS STATED DO NOT NECESSARILY REPRESENT OFFICIAL NATIONAL INSTITUTE OF EDUCATION POSITION OR POLICY.

OEDOLION YN DYSGU  
CYMRAEG

(ASTUDIAETH O GYMHELLION)

ADULTS LEARNING WELSH

(A STUDY IN MOTIVATION)

FL007323

INA TUDNO WILLIAMS

FACULTY OF EDUCATION,  
UNIVERSITY COLLEGE OF WALES, ABERYSTWYTH.

*Pamphlet No. 13 (1965)*

## YSGRIFAU AR ADDYSG

(Cyfres o lyfrau Cymraeg ar Addysg). Golygydd: JAC L. WILLIAMS

- Cyfrol I ... .. Y PLENTYN YSGOL.  
(Argraffiad cyntaf Mawrth 1962—  
Ail argraffiad Awst 1962. Pris 10/6).
- Cyfrol II ... .. EMILE (Detholiad). Cyfieithwyd gan  
R. M. Jones.  
(Argraffiad cyntaf 1963. Pris 12/6).
- Cyfrol III ... .. CYFLWYNO'R GYMRAEG. (Llawlyfr i  
athrawon Cymraeg fel ail iaith gan  
R. M. Jones).  
(Argraffiad cyntaf 1964. Pris 15/-).

Cyhoeddir y gyfres hon gan Wasg Prifysgol Cymru. Gellir archebu  
trwy Swyddfa Cyfadran Addysg Coleg Prifysgol Cymru, Cambrian  
Street, Aberystwyth, neu'n syth o'r Wasg, Cofrestrfa'r Brifysgol,  
Parc Cathays, Caerdydd.

---

ARGRAFFWYD GAN WASG GEE, DINBYCH

## SUMMARY IN ENGLISH

THIS pamphlet is a report of a study of motivation among adults learning Welsh in Wales, undertaken as part of a research project sponsored by the Department of Education and Science. It is claimed that the situations in which a language is likely to be used and the linguistic aim of the learners should be taken into consideration when the nature of the vocabulary to be included in a second language course is determined. Recent research work in vocabulary selection for second-language learning, in France, Canada and Ireland is reviewed. In particular the subjective manner in which situations were selected by research workers for the determination of disponibilité is criticised.

This study aimed at discovering by means of a questionnaire issued to 113 classes of adults learning Welsh the purpose for which the language was being learned and the situations in which the newly acquired command of the language is most likely to be used.

It was found that the most frequently mentioned reasons were concerned with television programmes in Welsh, in particular a desire to be able to follow news programmes in the language, and with ability to participate in social intercourse through the medium of the language. It is recommended that the planners of courses in Welsh as a second language for adults and for school pupils about to leave school should pay special attention to the vocabulary needed for understanding television news bulletins and for understanding and participating in everyday conversations among Welsh-speaking friends. It is also recommended that news bulletins and some other interesting material within restricted vocabulary and speech patterns be incorporated in Welsh television services and in local and national newspapers.

## RESUME

CETTE brochure contient un rapport sur une étude qu'on a faite pour apprendre la langue ("motivation"), parmi des adultes qui sont en train d'apprendre le gallois au pays de Galles. Cette étude fait partie d'un projet de recherches pédagogiques, exécuté sous l'égide du Ministère d'Instruction et de Science (Department of Education and Science).

L'auteur constate que, pour déterminer la nature du vocabulaire qu'on devrait inclure dans l'enseignement d'une deuxième langue, il faut tenir compte des situations dans lesquelles la langue étudiée va probablement être utilisée, et aussi du but de l'étudiant, en apprenant la langue. On passe en revue le travail qu'on a fait récemment en France, au Canada et en Irlande, sur le choix de vocabulaire dans l'enseignement d'une deuxième langue. On critique, en particulier, la subjectivité du choix de situations dans le travail fait pour déterminer la disponibilité.

Notre étude a pour but de découvrir, au moyen d'un questionnaire envoyé à 113 groupes d'adultes qui suivaient des cours de langue galloise, les raisons pour lesquelles ils apprenaient la langue, et les situations dans lesquelles ils auraient le plus souvent tendance à exercer leur maîtrise de la deuxième langue.

On a trouvé que les raisons les plus fréquentes étaient le désir de suivre des programmes en gallois à la télévision, en particulier le désir de pouvoir comprendre les communiqués lus en gallois; et aussi le désir de participer à la vie sociale, par l'intermédiaire de la langue galloise. On recommande à tous ceux qui ont l'intention de formuler des cours de gallois, comme deuxième langue, soit pour les adultes soit pour les grandes classes de nos écoles secondaires, de faire très attention au vocabulaire qui est nécessaire pour la compréhension des programmes d'actualités télévisées, et pour suivre et prendre part à la conversation d'amis gallois. On recommande, en plus, aux directeurs de télévision au pays de Galles, et aux rédacteurs de journaux régionaux et nationaux, de préparer en gallois, pour ces étudiants de deuxième langue, des communiqués et d'autres faits divers qui auraient un intérêt spécial, pourvu que le vocabulaire et les structures linguistiques soient assez restreints.

**CYFADRAN ADDYSG COLEG PRIFYSGOL  
CYMRU, ABERYSTWYTH**

*Pamffled-13*

---

**OEDOLION YN DYSGU  
CYMRAEG**

**(ASTUDIAETH O GYMHELLION)**

**ADULTS LEARNING WELSH**

**(A STUDY IN MOTIVATION)**

(✓)  
\_\_\_\_\_  
**INA TUDNO WILLIAMS**

---

**FACULTY OF EDUCATION,  
UNIVERSITY COLLEGE OF WALES, ABERYSTWYTH**

*Pamphlet No. 13 (1965)*

3

6

## RHAGAIR

YN 1964 cafodd Cyfadran Addysg Coleg Prifysgol Cymru grant o £5,050 gan Adran Addysg a Gwyddoniaeth y Llywodraeth at gynnal gwaith ymchwil ym maes dysgu'r Gymraeg fel ail iaith.

Penodwyd Mrs. Ina Tudno Williams yn ymchwiliwr cynorthwyol i'r Gyfadran, i weithio yn y maes arbennig a nodwyd. Yn y pamffled hwn ceir adroddiad o'r hyn a wnaed ganddi fel cam cyntaf yn y project sydd i ymestyn dros gyfnod o dair blynedd.

Dymunaf ddiolch i Mrs. Williams am ei diwydrwydd a'i brwdfrydedd dros y gwaith, i Mr. R. M. Jones, Darlithydd Ymchwil y Gyfadran, am yr arweiniad a roes iddi, ac i Adran Ystadegaeth y coleg am eu cymorth parod yn ochr ystadegol y gwaith.

JAC L. WILLIAMS,

*Deon y Gyfadran Addysg,  
Coleg Prifysgol Cymru,  
Mehefin 1965.*

## Y Cefndir

Hwyrach nad yw'r byd addysgol Cymreig mor ymwybodol ag y dylai fod o'r gweithgarwch, yr arloesi a'r arbrofi sydd ar gerdded ym myd dysgu a chyflwyno'r Gymraeg fel ail iaith, ac o'r gwead a'r gymhariaeth glos y gellir eu canfod rhwng y gweithgareddau hyn a datblygiadau pwysig ym myd dysgu'r ail iaith mewn gwledydd eraill megis Ffrainc, Canada, America ac Iwerddon.

Disgrifir yn y pamffled hwn ddarn o ymchwil ynghylch cymhellion pobt mewn oed heddiw i ddysgu ail iaith. Dechreuwyd ymchwilio i'r cyfeiriad arbennig hwn yn Ffrainc rai blynyddbedd yn ôl a chyd-nabyddir ein dyled i'r arloeswyr. Gobeithiwn hefyd i ni gymryd cam ymlaen ym myd ymchwil o'r math yma yn gyffredinol wrth gynllunio'r ymchwil fel y gynaethom.

Gobeithir cael syniad gwrthrychol o natur y meysydd y bwriada'r oedolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg ynddynt ar ôl iddynt ennill gwybodaeth ohoni ac o'r cylchoedd geirfaol y dylid eu paratoi ar eu cyfer. Wrth geisio penderfynu'n wrthrychol pa eirfa sy'n addas i'w dysgu i bobl mewn oed mae'n bwysig gwybod beth yw cymhellion y dysgwyr i ddysgu'r iaith. Fe ddylai'r fath ymchwil â hyn fod o werth hyd yn oed ar gyfer dysgu'r iaith mewn ysgolion uwchradd, gan fod y plant hefyd ar fedr cyrraedd oedran pryd y bydd eu cymhellion a'u defnydd bwriadedig hwythau yn gyffelyb.

Nid yw'n hawdd penderfynu pa eirfa gyfyngedig y dylid eu mabwysiadu mewn unrhyw gwrs iaith—boed mewn dosbarth nos, mewn cylchgrawn neu lyfr, neu ar y radio neu'r teledu. Bid siŵr, y mae yna gnewyllyn o eirfa sylfaenol y mae'n rhaid ei dysgu ymhob cwrs ail iaith, ond wedi cyflwyno'r ychydig ugeintiau hyn o eiriau dibynna'r gweddill a ddysgir i raddau helaeth ar ddi-ddordebau neilltuol y dysgwr. Os amler yw'r egwyddor wrth ddedhol geirfa, dylai'r amler hwnnw felly gael ei sianelu a'i ragordinio fel petai yn ôl y cylchoedd diddordeb lle y dylid ei brofi. Dyma nod yr ymchwil a ddisgrifir yma.

Nid penderfynu geirfa yw unig ffrwyth y math hwn o ymchwil bid siŵr. Gobeithiwn y bydd o werth ymarferol wrth benderfynu dulliau a chynnwys y defnyddiau dysgu ail iaith a baratoir ar gyfer y dysgwr, boed mewn ysgol uwchradd, mewn dosbarth nos, neu ar yr aelwyd gartref.

Eisoes gwnaethpwyd amryw ddadansoddiadau o'r Saesneg, y Ffrainceg a'r Almaeneg yn Lloegr, Ffrainc, Canada, America a'r Almaen i'r pwrpas o baratoi rhaglenni a defnyddiau ar gyfer athrawon a fydd yn gyfrifol am eu cyflwyno fel ail ieithoedd i blant ac oedolion. Arbrofwyd ar hyd yr un llinellau yn Iwerddon gyda'r Wyddeleg, a bellach yng Nghymru mae yna grwpiau o fewn colegau'r Brifysgol a'r Colegau Addysg ac amryw unigolion ymroddedig wrthi'n addasu ffrwyth ymchwil y gorfennol ym myd ieithyddiaeth at bwrpas ac amcanion dysgu'r Gymraeg. Dylid crybwyll hefyd y gwaith a wnaethpwyd eisoes yng Nghymru i'r cyfeiriad hwn. Ceir



arolwg o'r gwaith yn *Graddio Geirfa*! He y dywed R. M. Jones "Gan y B.B.C. ar hyn o' bryd y ceir y rhestri graddedig gorau ar gyfer dysgu'r Gymraeg. dros y tair blynedd cyntaf. Dywaid y Rhagair i'w Geirfa'r Ddwy Flynedd Gyntaf: "Lluniwyd yr eirfa trwy gymharu a chydosod y ffynionellau a ganlyn: *Llwybr y Gymraeg I a II, Cwrs Cymraeg Rhydychen, Llyfr Iaith I a Llyfr Darllen I, Interim Report on Vocabulary Selection a Geirfa Basic English*. Felly hefyd Geirfa'r *Drydedd Flywyddyn*. 'Roedd Cwrs Cymraeg Rhydychen Ewan J. Jones, wedi ei sylfaenu ar gyfrifiad amllder Laurence Faucett (O.U.P.). Yr unig gynnig ar "Basic Welsh" yw *The Basis and Essentials of Welsh*, 1947, J. P. Vinay a W. O. Thomas (Thomas Nelson and Sons Ltd.). Cytigir hefyd Eirfa sylfaenol gan Jennie Thomas, yn *Trydedd Arolwg Iaith* (Pwyllgor Addysg Sir Gaernarfon), er na nodir mo'r egwyddorion y tu ôl iddi" (td. 15). O safbwynt hanesyddol eto mae'n ddiddorol sylwi ar gystadleuaeth a osodwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Rhosllannerchrugog yn 1945 ar y testun: "Geirfa sylfaenol gyda rhagarweiniad ar y modd i'w thrin ar gyfer dysgu Cymraeg fel ail iaith". Ymgaisiodd tri chystadleuydd, ond cyn belled ag y gwyddys, ni chyhoeddwyd dim o ffrwyth y gystadleuaeth.

Wrth edrych at wledydd eraill a sylwi ar y gweithgarwch a fu ac y sydd ynddynt o hyd ym myd ieithyddiaeth, gwelir ar unwaith fod pwysigris mawr yr holl ymchwil ym maes dysgu ail iaith ar ddwy egwyddor sylfaenol, sef ar eirfa ac ar batrymau brawddegol, a'r rheini wedi eu graddio'n ofalus. Prifsiad cyffredin i bob athro yw ceisio penderfynu'n hollol bendant pa fath eirfa i'w dysgu wrth gyflwyno ail iaith; beth a ddylai'r eirfa honno ei gynnwys ac a oes modd gwybod faint o eiriau i'w cynnwys. Dywed rhai fod 1,500 o eiriau'n ddigonol a myn eraill fod angen rhwng 3,000 a 4,000 o eiriau ar y dysgwr. 850 o eiriau a geir yn *Basic English*, C. K. Ogden (Llundain, 1932). Yn Ffrainc wrth lunio *Française Fondamental* cadwyd 1,400 o eiriau yn y rhan gyntaf a 400 yn ychwanegol yn yr ail ran. a dywed M. West, *A General Service List of English Words* (Longmans, 1952) fod 7,000 o eiriau'n ddigon at ddarllen a 1,779 o eiriau'n ddigon at bwrpas mynegi. Ar y pwynt hwn gellir crynhoi trwy ddyfynnu R. M. Jones o *Graddio Geirfa*: "Ar ôl y 1,000 cyntaf y mae'r amrywiadau rhwng gwahanol gyfrifiadau'n cynyddu. Hynny yw, ar ôl 1,000 o eiriau y mae'r maes arbennig sydd dan sylw yn penderfynu amllder digwydd yn fwyfwy. Fe ymddengys, felly, fod defnyddioldeb y dull ystadegol hwn o sefydlu geirfa yn dirywio'n gyflym ar ôl sicrhau rhwng 1,000 a 1,500 o eiriau" (td. 7). Rhaid hefyd wahaniaethu rhwng yr eirfa y disgwylir i'r dysgwr ei gwybod, ei chosio a'i defnyddio, a'r eirfa yr ymgynefina â hi wrth ddarllen neu wrth ei chlywed yn ymgom pobl eraill.

Nid yw'r egwyddor o reoli geirfa (vocabulary control) yn beth newydd, ond gellir honni'n deg mai ar ddechrau'r ganrif hon, trwy bwyslais ac arweiniad Harold E. Palmer, yn bennaf y daeth ieithyddwyr yn ymwybodol ohoni. Wrth ddilyn gwersi Saesneg fel ail

iaith—Yr Athro oedd Berlitz—ac wrth ddysgu Almaeneg ei hun y daeth Palmer i sylweddoli gwerth geirfa gyfyng<sup>3</sup>. Yn fwy na hyn gwelodd fod angen, graddio geirfa, gan gynnig y diffiniad yma: *“ Graduation means passing from the known to the unknown by easy stages, each of which serves as a preparation for the next . . . The vocabulary in a well graded language course will be arranged in such a manner that the more useful words will be learnt before the less useful. . . . Let us remember that there are two sorts of ‘useful’ words. Those which are useful in themselves on account of their intrinsic meaning, and words which are useful as sentence formers.”*<sup>4</sup>

Gweithio'n ôl yr awgrymiadau a wnaeth Dr. Palmer fu bwriad pob ymchwiliwr ym myd ail iaith wedi hyn, oherwydd fel y dywed Hagboldt, sy'n ymwneud â dysgu Almaeneg fel ail iaith: *“ Word counts and an exact knowledge of the frequency of words are advantageous to everyone concerned. The teacher knows what to teach, the student what to learn, the author of text books what words are of greatest utility. Administrative officers through the use of texts which are confined to a definite vocabulary are enabled to place students more easily and adequately.”*<sup>5</sup>

Rkfaid i ni sylwi'n fanylach ar waith ymchwiliwr yn Ffrainc, Canada ac Iwerddon. Yn 1951 penodwyd comisiwn gan y llywodraeth yn Ffrainc i fod yn gyfrifol am lunio *Français Fondamental—Commission pour l'établissement d'un français élémentaire*. Penodwyd tim o ymchwiliwyr yng ngholeg Saint Cloud o dan gyfarwyddyd M. G. Gougenheim i fod yn gyfrifol am y gwaith hwn. Y nod oedd llunio rhaglen ar gyfer dýsgu Ffrangeg fel ail iaith a chanolbwytio'n bennaf ar gasglu geirfa a phatrymau brawddegol; ac wedi casglu, carfannu a didoli'r deunydd, cyrraedd at y lleiafrif posibl o eiriau a phatrymau.

Hyd yma, yn sail i bron pob cyfrifiad geiriau defnyddiwyd, gweithiau ysgrifenedig, megis nofelau, llythyrau, papurau dyddiol, traethodau ac erthyglau. Ond torrwyd tir newydd pan astudiodd Schonell Saesneg llafar docwyr Awstralia (1952) a Mr. Cyril Hughes (1957) iaith lafar plant 8 oed yng Ngheredigion. Seiliwyd eu gwaith hwy ar iaith lafar, nid ar iaith llyfr. Ac yn Ffrainc, wedi cytuno a chydnabod mai'r iaith lafar ac nid yr iaith ysgrifenedig ddylai fod yn sylfaen i iaith dýsgwyr gwnaethpwyd dādansoddiad o'r iaith lafar ar raddfa eangach nag erioed o'r blaen. Un agwedd ar hyn oedd gwneud recordiau o sgysiau pobl o wahanol ddisbarthiadau cymdeithasol. Casglwyd 163 o sgysiau'n cynnwys 312,600 o eiriau, ac fe'u dosbarthwyd mewn dull deublyg:

- 1) rhestru'r geiriau yn ôl eu hamlder.
- 2) rhoi mewn rhestr yn ôl trefn y wyddor y geiriau a gadwyd o'r rhestr gyntaf, h.y., geiriau ag amlder o ugain a mwy. Trywy weithredu fel hyn lluniwyd rhestr o 1,963 o eiriau.

Ond wedi gwneud y gwaith llafurus hwn, sylweddolwyd nad oedd geirfa o eiriau wedi eu dewis yn ôl amllder y defnydd a wnaed ohonynt yn unig yn ddigonol. Gwelwyd mai geiriau cynhwysol yn bennaf, ynghyd â berfau ac ansoddeiriau, oedd uchaf eu hamlder. Cyn belled i lawr â'r canfed gair ni chafwyd ond tri enw. Wrth gwrs fod geiriau o'r teip a nodwyd yn bwysig, ond er gwneud yn llwyddiannus ymchwil bwriadol at bwrpas arbennig, sef cyflwyno ail iaith yn effeithiol, rhaid dod o hyd i eirfa ddiriaethol yn cynnwys nifer mawr o enwau. Ni ellir siarad am ddim heb enwau. Ac nid yn unig mae amllder enwau'n isel ond y mae hefyd yn ansefydlog iawn.

Felly bu'n rhaid ail-ystyried, ac edrych am bosibiliadau eraill. Ffordd arall agored iddynt oedd defnyddio holiadur a hwnnw wedi ei sylfaenu ar sefyllfaoedd neu ddi-ddordebau arbennig, oblegid "wrth archwilio ym myd cymdeithasiad syniadau gan gychwyn o brif ddi-ddordebau'r gymdeithas fe welir mai enwau diriaethol yw'r union eiriau sy'n llamu i sylw". Penderfynodd y tîm ar 16 o ganol-bwyntiau y tybient hwy eu bod o ddi-ddordeb arbennig, gan sylfaenu'r holiadur arnynt.

Dyma hwy:

1. Rhannau'r corff.
2. Dillad.
3. Y tŷ (nid dodrefn).
4. Dodrefn y tŷ.
5. Y diodydd a'r bwydydd ar gyfer yr holl brydau.
6. Y gwrthrychau a roddir ar y bwrdd ar gyfer y prydau.
7. Y gegin, ei dodrefn a'i hoffer.
8. Yr ysgol, ei dodrefn a'i defnyddiau.
9. Gwresogi a goleuo.
10. Y dref.
11. Y pentref neu'r dref-farchnad.
12. Trafnidiaeth.
13. Gwaith y caeau a'r gerddi.
14. Anifeiliaid.
15. Chwaraeon a diddanwch.
16. Crefftau.

Anfonwyd yr holiadur i blant ysgolion cynradd mewn pedair ardal—Dordogne, Eure, Marne a Vendee, a gofynnwyd iddynt bob un ysgrifennu 20 o enwau a ystyriant yn fwyaf cyfleus i drafod pob un o'r themâu uchod. O'r rhestr derynol cadwyd 800 o eiriau ac ychwanegodd y comisiwn 600 at y nifer hwn o'r rhestr gyntaf a baratowyd ganddynt. Cafwyd felly eirfa o 1,400 o eiriau wedi eu dewis yn ôl dwy egwyddor sylfaenol, sef *Amllder* (Fréquence) a *Chyfleusrwydd* (Disponibilité). Gellid dweud mai cyfraniad mawr Ffrainc oedd dangos peryglon a chyfyngiadau egwyddor *Amllder*, ac o'r herwydd ni ddyllid dibynnu'n hollol arni, ond ei defnyddio

mewn cyswllt ag egwyddor arall, sef Cyfleusrwydd. Gellir dweud mai'r egwyddor o raddio geirfa yn ôl sefyllfaeodd yw'r amod sy'n penderfynu cyfleusrwydd gair.

Felly yn Ganada ac Iwerddon arbrofi ym maes cyfleusrwydd ac nid yn gymaint ym maes amllder geiriau a wnaethpwyd. Yn 1961-63 ym Mhrifysgol Laval yn Quebec cynlluniwyd holiadur ar un-ar-hugain o sefyllfaeodd neu ganolbwyntiau diddordeb, i'w dosbarthu mewn pymtheg o ranbarthau America-Ffrengig. Derbyniwyd yr 16 o sefyllfaeodd a ddefnyddiwyd yn Ffrainc, ac atynt ychwanegwyd pump arall, sef:

1. Yr eglwys a bywyd y plwyf.
2. Sbord.
3. Offer a thaciau.
4. Y car.
5. Digwyddiadau'r dydd.<sup>10</sup>

Yn Iwerddon dewiswyd ugain o ganolbwyntiau wedi eu dewis eto mewn dull hollol oddrychol:

1. Rhannau'r corff.
2. Ymarfer corff, sbort.
3. Adloniant, hobi—yn y tŷ.
4. Afiechydon (mathau), doluriau, iachâd.
5. Crefydd, yr Eglwys.
6. Dillad o bob math (dynion, menywod, bechgyn, merched).
7. Bwyd a Diod.
8. Prydau bwyd, ac offer i baratoi ac i fwyta bwyd.
9. Y cartref neu'r tŷ, dodrefn, gwres, golau.
10. Y teledu, perthnasau, teimladau pobl synt eu hunain ac at graill (e.e., cariad).
11. Bywyd ysgol, gweithgareddau, dodrefn.
12. Teithio, dulliau teithio a phethau perthnasol iddynt.
13. Masnach, prynu a gwerthu (nid y nwyddau a werthir ac a brynir).
14. Bywyd mewn tref neu ddinas.
15. Bywyd a gwaith yn y wlad a'r olygfa.
16. Anifeiliaid, adar, pysgod, pryfed.
17. Coed, planhigion, blodau, chwyn, cnydau.
18. Masnach a galwedigaethau o bob math, gwaith (yn gyffredinol).
19. Llywodraeth y wlad.
20. Y tywydd, yr amser, y tymhorau.

Yn wahanol i Ganada, cafordd y rhai a atebai'r holiadur ryddid i gynnwys ansoddeiriau a berfau yn ogystal ag enwau o dan y gwahanol benawdau. Paratowyd dwy festr yn Iwerddon, un o eirfa sylfaenol mewn Saesneg, a'r llall o eirfa sylfaenol mewn Gwyddeleg.

## Yr Holiadur

Gellir ar unwaith werthfawrogi cyfraniad enfawr canlynjadau'r ymchwil yn Ffrainc, Canada ac Iwerddon, ond eto erys bylchau, ac ymgais i lanw un o'r bylchau yma yw'r gwaith hwn. Wrth sôn am er ymweliad â Chanada-ac am y gwaith a wneir yno o dan gyfarwyddyd Prifysgol Laval yn y maes o gyfleusrwydd geiriau dywed Bobi Jones "Os caf gloi ar air o feirniadaeth, yr unig bwynt sy'n perianesmwythyd i mi yw'r modd goddrychol y penderfynwyd beth oedd y canolfannau diddordeb. Credaf bod dull hollol wrthrychol—drwy holwyddoreg—o benderfynu pa feysydd cyfredinol a fernir gan bobl yn bwysig siarad amdanynt".<sup>11</sup> Gellid yn yr un modd addasu'r feirniadaeth uchod i'r ymchwil yn Ffrainc ac yn Iwerddon. Yn hollol oddrychol y penderfynwyd ganddynt ar feysydd diddordeb trigolion y ddwy wlad.

Nid beirniadaeth yn unig a rydd Bobi Jones. Awgryma ffordd i wella ar y dulliau a ddefnyddiwyd, a dyma a arweiniodd at yr arbrawf hwn o anfon holiadur i dosbarthiadau nos i oedolion sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith. Nid yn gymaint mesur beth yw canolbwyntiau diddordeb cyfredinol oedolion yw pwrpas yr holiadur hwn, ond mesur cymhelliôn y dysgwyr i ddysgu Cymraeg, Gwriaeth-pwyd llawer o ymchwil eisoes i fyd diddordebau plant ac oedolion; a gellir gwneud defnydd o'r ymchwil hwn os bydd angen, ond i'n pwrpas ar hyn o bryd, rhesymau'r dysgwr dros ddysgu'r Gymraeg yn unig sy o ddiddordeb i ni. Wedi ymgynghori â rhai athrawon dosbarthiadau nos ac â'r dysgwyr yn y dosbarthiadau hynny, llun- iwyd holiadur. Sylfaenwyd ef ar naw o brif resymau a roddwyd gan y dysgwyr eu hunain. Ychwanegwyd "Other Reasons—J." i sicrhau nad oedd rhyw reswm pwysig arall wedi ei adael allan. Ceir ymdrin- iaeth lawnach â'r adran hon eto'n nes ymlaen.

Roedd y rhesymau a gafwyd yn cylchdroi o gwmpas:

1. *Y Cartref a Chymdeithas*

Teulu a Chartref (B.)

Addoli (E.)

Byw mewn ardal Gymraeg (G.)

Rhesymau polifcaidd neu gymdeithasol (H.).

2. *Diddordebau*

Radio a Theledu (A.)

Darllen Cymraeg (C.)

Adloniant (F.)

Diddordeb mewn dysgu iaith (I.).

3. *Gwaith a Masnach* (D.).

(Mae llythrennau'r wyddor yn cyfeirio at drefn y penawdau yn yr holiadu.)

Is-rannwyd y penawdau hyn eto (gw. y copi o'r Holiadur, tud. 23).

Wrth ddosbarthu'r holiadur rhoddwyd cyfarwyddiadau i'r athro ac i'r ddisgyblion, a gofynnwyd am i'r holiadur gael ei lenwi cyn gynted ag oedd bosibl fel na chaniateid unrhyw amser i drafodaeth ymlaen llaw a allai ddylanwadu ar yr unigolion wrth ateb. Gofynnwyd i'r dysgwyr nodi gyferbyna â phob is-raniad pa mor bwysig ydoedd o'i safbwynt ef ei hun mewn cyswllt â dysgu'r Gymraeg trwy'r roi:

- 100 o farciau am *Pwysig iawn*
- 75 o farciau am *Pwysig*
- 50 o farciau am *Canolig*
- 25 o farciau *os oedd o unrhyw ddefnydd*
- 0 os *nad oedd o ddefnydd o gwbl*.

Buwyd yn trafod yr holiadur gyda rhai o staff Adran Ystadegaeth y Coleg a chafwyd eu bendith arnŵ, ac addewid y byddent yn ymgymryd â'r gwaith o ddosbarthu a chyfri'r canlyniadau. Fel rhag-brawf anfonwyd yr holiadur allan i dri dosbarth nos yn Aberystwyth—dosbarthiadau dan nawdd y Gyfadran Addysg, i weld a oedd unrhyw anhawster yn codi ynglŷn â'i ddefnyddio, ac eto i gael amcan o lwyddiant y rhesymau a nodwyd, h.y., i weld a oedd rhyw reswm pwysig yn codi o dan "Other Reasons—J."

Wedi gweld bod yr arbrawf yn llwyddiannus anfonwyd copiau o'r holiadur allan at 111 o ddosbarthiadau nos led-led Cymru, ac at ddau ddosbarth yn Lloegr. Defnyddiwyd rhestr 1963-4 o ddosbarthiadau nos i'r pwrpas o ddosbarthu, a chafwyd fod yna yn

Sir Forganawg	25	o ddosbarthiadau
Caerdydd	5	"
Y Rhondda	2	"
Abertawe	4	"
Casnewydd	2	"
Sir Gaerfyrddin	4	"
Sir Benfro	3	"
Sir Fynwy	10	"
Sir Drefaldwyn	7	"
Sir Faesyfed	4	"
Sir Fôn	3	"
Sir Ddinbych	13	"
Sir Feiriionnydd	3	"
Sir Aberteifi	4	"
Aberystwyth	8	"
Sir Gaernarfon	10	"
Sir Fflint	1	"
Sir Frycheiniog	1	"
	111	
Lloegr	2	
Cyfanswm	113	

Dyma'r rhestr ddiweddaraf oedd gennym pan ddosbarthwyd yr holiadur ond nid yw'n rhestr gyflawn o'r dosbarthiadau "Dysgu Cymraeg i Oedolion" a gynhaliwyd yn ystod gaeaf 1964-65. Gwyddom er enghraifft fod yna dri dosbarth ychwanegol yn nhre Aberystwyth, un yn y Borth, ac un ychwanegol yn Lloegr (Reading).

Anfonwyd copiâu o'r holiadur i 113 o ddosbarthiadau, a derbynwyd nifer yn ôl wedi eu llenwi oddi wrth 52 ohonynt o'r canolfannau a nodir isod: —

*Sir Drefaldwyn*  
Y Drenewydd  
Llanidloes  
Meifod  
Staylittle  
Y Trallwng

*Sir Gaernarfon*  
Abersoch  
Bangor  
Caernarfon  
Penygroës  
Llandudno  
Penmaenmawr

*Sir Aberteifi*  
Aberystwyth (6)  
Comins Coch  
Aberteifi  
Llandysul

*Sir Benfro*  
Trefdraeth (2)  
Abergwaun  
Aberdaugleddau

*Sir Faesyfed*  
Llandrindod

*Sir Fynwy*  
Pontypŵl (2)  
Y Fenni  
Cwmcarn

*Sir Ddinbych*  
Wrecsam  
Rhuthun  
Llanrwst  
Abergele

*Sir-Feirionnydd*  
Abermo  
Dolgellau  
Bala  
Towyn  
Harlech (2)

*Sir Gaerfyrddin*  
Caerfyrddin

*Sir Forgannwg*  
Abertawe  
Caerdydd (3)  
Pen-y-bont ar Ogwr  
Porthcawl  
Pontypridd  
Abercynon  
Caerffili

*Sir Fôn*  
Porthaethwy  
Cemaes

*Lloegr*  
Walton-on-the-Hill

Manteisiwn yma ar y cyfle i ddiolch i athrawon a disgyblion y dosbarthiadau uchod am eu parodrwydd i gydweithredu mor hynaws â ni yn ein harolwg.

# Y Canlyniadau

TABLE I

Rhestr o'r rhesymau a gyfrifid yn bwysig iawn, h.y., wedi eu marcio  
 a' 100 ar y 510 holiadur a ddychwelwyd.

Trefn	Pennawd	Nifer a atebodd bob adran	Cyfrataledd o'r rhai a atebodd bob adran (yn ôl y cant, %)
1.	News .....	206	42
2.	Joining in social life with friends .....	184	38
3.	Light popular reading .....	178	37
4.	Interest in language .....	170	36
5.	Living in a Welsh community (Country) .....	141	35
6.	Eisteddfodau .....	161	34
7.	Cymanfa Ganu .....	145	32
7.	Use with children .....	150	32
9.	Education .....	130	30
10.	Patriotism .....	122	29
11.	Chapel worship .....	107	26
12.	Noson Lawen .....	112	25
13.	Church worship .....	91	22
13.	Marriage, to a Welsh-speak- ing partner .....	97	22
15.	Shop and trade .....	79	20
16.	Reading general literature .....	88	19
17.	Elderly members in family .....	81	18
17.	Other Reasons .....	62	18
17.	Living in a Welsh community (town) .....	72	18
20.	Drama .....	78	17
21.	Light entertainment .....	61	13
22.	Business — other .....	45	12
23.	Scholastic works .....	49	11
24.	Local government .....	44	11
25.	Agriculture .....	38	10
26.	Sport .....	31	7
27.	Doctor .....	20	5
28.	Bank .....	7	2



Gwelir oddi wrth y tabl hwn mai "newyddion" ar y radio a'r telëdu sydd wedi fiod' ar ben y rhestr, a dyw hyn ddim yn syndod o gofio'r rhan bwysig a chwaraeir gan y cyfryngau hyn ym mywyd pobl heddiw. Yn ail, daeth "cymdeithasu trwy'r Gymraeg". Yn drydydd daeth "darllen gweithiau ysgafn—megis newyddiaduron, cylchgronau a nofelau," a gellir casglu bod eitemau o newyddion o ddiddordeb arbennig i'r dysgwyr. Sylwir ar y llaw arall fod teipiau eraill o raglenni radio a theledu megis drama, adloniant ysgafn a chwaraeon yn isel ar y rhestr (20, 21, 26). Mae'n ddiddorol sylwi fod "diddordeb mewn iaith" wedi dod yn bedwerydd. (Am ragor o fanwlion ar y diddordeb hwn, gweler yr adran ar "Other reasons").

O gymryd y 14 cyntaf ar y rhestr gwelir mai rhesymau cymdeithasol sy gan y mwyafrif o ddysgwyr mewn golwg wrth ddyngu'r Gymraeg.

—*Joining in social life with friends.*

—*Living in a Welsh community.* (Ardal wledig yn bennaf. Ni theimlir yr un angen am wybodaeth o'r Gymraeg mewn tref.)

—*Eisteddfodau, Cymranfa Ganu, Noson Lawen.*

—*Worship—church and chapel.*

—*Patriotism.*

Yna mae dau o'r rhesymau'n perthyn i fyd y teulu:

—*Marriage to a Welsh-speaking partner.*

—*Use with children.*

a daw "addysg" yn nawfed ar y rhestr. Dyma'r unig is-bennawd ar wahân i *Shop and Trade* o dan *Business and Profession* sy'n dod yn gymharol uchel. Mewn gwirionedd, is-benawdau'r adran hon sy'n cymryd y lle isa oll. Felly mae'n amlwg nad yw'r dysgwyr yn teimlo fod arnynt angen y Gymraeg yn y cylch hwn o fywyd ac eithrio ym myd addysg neu at bwrpas prynu a gwerthu.

## TABL II

Yn y tabl a welir ar y tudalen nesaf nodir cyfanrif pwysau pob is-adran ar wahân. Cafwyd y canlyniadau hyn drwy roi pedwar cymaint y pwysau i golofn 100, tri chymaint y pwysau i golofn 75, dau gymaint y pwysau i golofn 50, a chadw colofn 25 fel yn y gwreiddiol, gan anwybyddu colofn 0 yn cyfangwbl.

TABL II

Trefn	Pennawd	Cyfanrif pwysau (weight)
1.	News .....	278
2.	Joining in social life with friends .....	264
3.	Light popular reading .....	263
4.	Interest in language .....	258
5.	Eisteddfodau .....	241
6.	Living in a Welsh community (Country) .....	231
7.	Cymanfa Ganu .....	213
8.	Use with children .....	209
9.	Reading general literature .....	207
10.	Noson Lawen .....	201
11.	Education .....	199
12.	Patriotism .....	193
13.	Living in a Welsh community (Town) .....	188
14.	Light entertainment .....	184
15.	Drama .....	178
16.	Other reasons .....	176
17.	Worship — Chapel .....	171
18.	Worship — Church .....	168
18.	Shop and trade .....	158
20.	Use with elderly members in the family .....	141
21.	Reading scholastic works .....	137
22.	Marriage to a Welsh-speaking partner .....	130
23.	Business — other .....	113
24.	Local government .....	108
25.	Sport .....	106
26.	Agriculture .....	90
27.	Doctor .....	67
28.	Bank .....	49

O gymharu'r 14 cyntaf yn y ddwy restr (Tabl I a II) gwelir mai'r un pedwar rheswm sy ucha ynddynt. Mae *Worship—Church and Chapel a Marriage to a Welsh-speaking partner* wedi cwmpo i safle 17, 18, 30, ac yn eu lle i'r 14 cyntaf daeth *To read Welsh—general literature a Living in a Welsh community—Town*. Yr un pump rheswm sy ar waelod y ddwy restr.

Cymedr pwysau

TABLE III

Trefn	Pennawd	Cymedr pwysau (weighted mean)
1.	Interest in Language .....	258.0
2.	Welsh Functions or Entertainment .....	218.3
3.	Living in a Welsh community .....	209.5
4.	To read Welsh .....	202.3
5.	Political and social reasons .....	188.3
6.	Radio and Television .....	186.5
7.	Other reasons .....	176.0
8.	Worship .....	169.5
9.	Family and Home .....	160.0
10.	Business and Profession .....	112.7

Wrth ystyried y prif adrannau'r tro hwn gan gymryd cyfanswm y pedair colofn ymhob is-adran a rhoi eto'r un pwysau iddynt ag a roddwyd wrth baratoi Tabl II, gwelir fod cryn newid yn safle y gwahanol adrannau. Mae Radio a Theledu wedi syrthio dipyn a hynny am fod is-benawdau A2, A3, A4 fel y soniwyd eisoes wedi cael eu gosod yn isel iawn. Eto' ar waelod y rhestr daw *Business and Profession* ond dylid cadw mewn cof fod *Education a Shop and Trade* o fewn y pennawd hwn wedi cyrraedd safle gymharol uchel yn y ddwy restr gyntaf. Digwyddodd yr un peth gyda *Family and Home*, ond rhaid cofio am safle uchel B1 a B2 yn y rhestri blaenorol. Diddordeb mewn iaith a chymhellion cymdeithasol sy ar ben y rhestr hon eto.

Dyma'r lle priodol i ymdrin â'r adran *Other reasons*. Dywedwyd eisoes i ni geisio mesur pwysigrwydd y pennawd hwn drwy anfon yr holiadur i ddechrau i dri dosbarth nos yn Aberystwyth, a chael nad oedd angen ymhelaethu arno, am fod y rhesymau a restrwyd yn ddigonol. Fodd bynnag gan i'r adran ddod yn gymharol uchel yn y rhestri uchod nid yw ond yn naturiol holi beth oedd y rheswm am hynny. Ni ofynnwyd i'r dysgwyr wrth ateb nodi'r rhesymau eraill a allasai fod ganddynt, ond fe wnaeth rhai ohonynt hynny. Fe restrir y rhesymau hynny yma er mwyn dangos nad ydynt mewn gwirionedd yn bwysig nac yn galw am sylw arbennig. Ail adrodd, mewn dull ychydig yn wahanol, y rhesymau a gafodd eu cynnwys eisoes a wna amryw ohonynt:

- participating in village life.
- working with Welsh children.
- teaching in a training college where quite a large proportion of students come from Welsh-speaking areas, and I desire to participate in social activities.

- as I am a vicar's wife in the parish, the language is of some use.
- to become a priest in Wales.
- feel it only courteous when living in a foreign country to try to learn the language. (Cafwyd rheswm tebyg amryw o weithiau.)
- enjoyment (amryw o weithiau).
- Welsh great grandfather.
- interest in Wales, its background and history (amryw o weithiau).
- as an aid to camping and mountaineering in remote Wales, I think a little knowledge of Welsh would be appreciated.
- map-reading.
- everyday conversation.
- as mental stimulus (amryw o weithiau).
- the primary reason for attempting to learn Welsh is the fact that I spend all my holidays in North Wales with Welsh-speaking friends. (Daw "gwylliau." droeon).
- as an American in your country I thought it would be interesting to study Welsh. Not only do I want to know how to pronounce your place names (amryw) but also I think the language can help me in learning more about the people and their way of life.
- to keep the language alive (amryw).
- any country that has a language of its own should ensure that everyone should speak it.

## Argymhellion

I'r pwrpas hwn rhown sylw arbennig i'r rhesymau uchaf eu hamlder a'u pwysau yn Tabl I, sef: *Radio and Television—News, Joining in Social life with friends, Light popular reading—news-papers, novels, Interest in languages.* Y cyfryngau a'all fod o gymorth ac sydd o fewn gfael ein dysgwyr Cymraeg yw'r radio a'r teledu, papurau newydd a chyhoeddiadau eraill a all fod o ddirdordob iddynt, a dosbarthiadau nos a sefydlwyd yn arbennig ar eu cyfer. Gan ein bod bellach yn gwybod i sicrwydd gymhellion ein dysgwyr, ohi ddylai'r cyfryngau hyn gydweithio a rhoi ystyriaeth arbennig iddynt?

Tybiaf, mewn ymchwil ar amlder geirfa yn y dyfodol, y dylid penderfynu'r meysydd a chwillio am amlder o'u mewn o flaen llaw, ar sail rhyw arolwg argymhellion tebyg i hyn. Hynny yw, wrth gasglu siamplau i'w dadansoddi ar gyfer oedolion, fe ddylid casglu'n helaeth o blith:

Newyddion (radio a theledu):  
Ymddiddan rhwng cyfeillion.  
Darllen ysgafn.

1. *Radio a Theledu*: Yn ychwanegol at y cyrsiau a fwriedir yn uniongyrchol i ddysgu ail iaith, awgrymir y dylai fod cyfres o raglenni, o leiaf unwaith yr wythnos, mewn geirfa a chystrawen gymharol gyfyngedig ac mewn iaith lafar safonol ar gyfer dysgwyr. Awgrymir y rhain fel meysydd i gychwyn:

- (i) Newyddion.
- (ii) Amrywiaeth amserol (c. *Heddiw a Y Dydd*).
- (iii) Lleuedd yng Nghymru.

### *Newyddion*

Gyda chyflwyno rhaglen o newyddion mewn ail iaith mae anawsterau amlwg yn llamw i'r meddwl, a hynny am fod newyddion yn fythol newydd, yn newid ac yn amrywio o awr i awr. Ond ar y llaw arall gellir yn weddol hawdd weld patrwm cymharol sefydlog i'r themâu a gaiff sylw:

1. Damweiniau: ar y ffyrdd, yn yr awyr, mewn gwaith, mewn chwaraeon.
2. (a) Ymwelwyr â Chymru: o wledydd tramor, aelodau'r teulu brenhinol, aelodau seneddol, cantorion pop.
- (b) Cymry'n ymweld â gwledydd tramor.
3. (a) Adroddiadau o'r Senedd.
- (b) Adroddiadau o gyfarfodydd cenedlaethol pwysig yng Nghymru.
4. Chwaraeon y dydd.
5. Sireic, ac unrhyw anghydfod mewn gwaith.
6. Prisiau'r farchnad—yn codi, neu'n gostwng.
7. Dathlu gwyl, can mlwyddiant neu ddathlu sefydliad rhyw fudiad arbennig.
8. Cyhoeddiadau pwysig—llyfrau, adroddiadau comisiwn.
9. Apwyntiadau pwysig—prifathro coleg neu ysgol, i swyddi yn y llywodraeth, llywydd undebau llafar.
10. Trosedd, llofruddiaeth, lladrata.

Mewn rhaglen o newyddion mewn ail iaith gellid, ac fe ddylid cadw at batrymau sydd eisoes yn gyfarwydd i'r dysgwyr. Pwysleisia Bobi Jones hyn wrth sôn am wersi ar destunau amserol: "Yn fy marn i gwel defnyddio cystrawennau a ddysgwyd eisoes mewn gwrs fel hon: nid dyma'r achlysur i gyflwyno patrymau ieithyddol newydd. Cadw'r Gramadeg yn i wers neilltuoel. Ymarfer â hen gystrawennau (h.y., adolygu), dysgu ychydig o eirfa newydd, ac yn anad dim, dod i deimlo'r ail iaith fel cyfrwng meddwl. Dyna bwrpas y math hwn o wers."

Ond fel gyda phob ymgais i gyflwyno ail iaith, mae cyflwyno a dethol geirfa'n effeithiol yn anos o lawer na chyflwyno patrymau. Yr egwyddor eto i'w chadw mewn golwg yw'r egwyddor o leiafswm

geirfa. " Yr hyn sy'n bwysig, heblaw penderfynu ar destun amserol, yw crannhoji'n gynnif yr eirfa sy'n arbennig ac yn anochel i'r pwnc."<sup>13</sup> Gellid cymryd y themâu a restrwyd uchod ar wahân a llunio geirfa gyfyng i bob un ohonynt. Dylid dewis lle bo modd eirfa ac iddi gydberthynas â geiriau Saesneg,<sup>14</sup> heb fynd allan o'r ffordd i wneud hyn yr wrth gwrs, ac anghofio fod geiriau digon naturiol i gyfateb yn y Gymraeg. Yn y cyswllt hwn eto, ac yn arbennig i helpu gyda'r dechneg o gyflwyno'n fywiog a diddorol, sylwer ar wersi a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn *Yr Athro* ac yn *Cymraeg* ar bynciau amserol, e.e.:

Patagonia .....	<i>Yr Athro</i>	Mai 1965, tt. 266-9
Chwaraeon .....	<i>Cymraeg</i>	Cyf. X, tt. 249-50 tt. 283-4
Cymru am Byth (Ryggi) .....	<i>Yr Athro</i>	Ion. 1965, tt. 157-61
Ras Fawr Le Mans	<i>Cymraeg</i>	Cyf. IX, td. 313
Y Barbariaid .....	<i>Cymraeg</i>	Cyf. IX, td. 275-6
Lyn Davies .....	<i>Cymraeg</i>	Chwef. 1965, td. 213
Jack Hobbs .....	<i>Cymraeg</i>	Cyf. IX, td. 343
Y Gêm Griced .....	<i>Cymraeg</i>	Cyf. IX, tt. 340-2
Ras Gychod .....	<i>Yr Athro</i>	Cyf. XI, tt. 323-5 Cyf. XI, tt. 232-4
<i>Adloniant ysgafn</i>		
Chuck Berry .....	<i>Cymraeg</i>	Cyf. X, td. 143
Manfred Mann .....	<i>Cymraeg</i>	Ebrill 1965, td. 827
Ffilm: Cliff Richard	<i>Cymraeg</i>	Ebrill 1965, td. 35
Y Band Sgiffel .....	<i>Hwyl gyda'r Gymraeg</i> <sup>15</sup>	Ebrill 1965, td. 71

#### *Trosedd*

Ymosod ar Fanc ... *Cymraeg* Cyf. X, td. 246

(Gw. hefyd helyntion " Fflash Jones, Y Newyddiadurwr ", *Cymraeg*)

Gellir paratoi cymaint ymlaen llaw. Yn ôl awgrym Bobi Jones (gw. *Yr Athro*, Ionawr 1965, tt. 153-5) gellir paratoi calendar blwyddyn o safbwynt dathliadau hanesyddol bwysig, ac o safbwynt gwyliau cenedlaethol a chrefyddol.

#### *Lleoedd yng Nghymru*

Gwelwyd eisoes fod i amryw o'n dysgwyr ryw swyn arbennig mewn enwau lleoedd, ac yn ogystal â bod yn awyddus i fedru ynganu enwau lleoedd yn gywir, mae ganddynt hefyd ddiddordeb yn eu hystyron. Mae posibiladau yma eto i lunio cyfres o raglenni ar enwau lleoedd Cymru, gan eu cysylltu â chefnidir hanesyddol boed

ym myd realiti neu ym maes chwedloniaeth. Byddai i'r rhaglenni hyn eu hapêl at Gymry Cymraeg yn ogystal. Dywed Syr Ifor Williams yn ei Ragair i *Rhestr o Enwau Lleoedd* (gol. Elwyn Davies, Gwasg Prifysgol Cymru, 1957): "Mae'n rhyfeddol y cymhellion gwahanol sy'n gyrru dynion i ddarllen rhês o enwau lleoedd fel hon . . . Yng nghwrs y canrifoedd, newidiodd y Gymraeg gryn dipyn yn ei geirfa, ac yn ei hyngaliad, gan gollu geiriau ac ennill cyfystyron newydd. Ond cadwyd yr enwau lleoedd, er bod gwerin gwlad, yn araf gollu ystyron lliaws, ac o'r diwedd yn eu hebrgofi yn llwyr. Mewn amser daw deddf arall i weithredu, dechreuir teimlo diddordeb arbennig yn yr enwau anodd ac anncalladwy hyn, a rhoir cynnig ar ôl cynnig i gael ystyr iddynt." Mantais fawr wrth ymdrin ag enwau lleoedd yng Nghymru yw nad oes eisiau ymwneud â phob lle'n unigol, oblegid maent yn ffurfio yn ôl patrwm yr elfen gyntaf i ddisbarthiadau: twt a chryno; Aber, Llan, Caer, Melin, Nant, Tre, etc.

### II Radio a Theledu:

Rhaglenni Saesneg. Yn ychwanegol at y rhaglenni presennol yn ymwneud â Chymru, awgrymir y dylai fod ymgais fwy uniongyrchol i agor yr iaith a'i phethau i bobl Cymru sy heb fedru'r iaith; e.e.,

(i) Hanes yr iaith; (ii) Llenyddiaeth Gymraeg ddoe a heddiw.

Awgrymir hyn am i'r cymhelliad *Interest in Languages* ddod yn gymharol uchel ar y rhestr—sef yn bedwerydd. Efallai y gellid dadlau fod i'r cymhelliad hwn, yn anad un, apêl at ddisbarth arbennig mewn cymdeithas, sef y dosbarth academaidd. (Ar yr holiadur gofynnwyd i'r dysgwyr nodi eu galwedigaeth, ond oherwydd i'r cwestiwn gael ei ofyn mewn ffordd rhy syml a phenagored, ni chafwyd atebion digon manwl a phendant, ac ni fu modd defnyddio'r wybodaeth hon, e.e., cafwyd atebion fel hyn: *industry, coal board, public transport*; ac nid oedd modd penderfynu pa fath o waith—clerc; ysgrifennyddes, arolygwr, etc.—oedd gan y dysgwr o fewn y sefydliadau uchod.) Dylid rhybuddio felly fod yna bosiblwydd nad yw'r cymhelliad hwn yn apelio at bawb, ac fel yr â dosbarthiadau ar gynnydd y bydd llai o ddysgwyr yn ymddiddori mewn iaith fel cymhelliad.

### III Cymdeithasol:

Yn ail ar y rhestr daw'r cymhelliad *Joining in Social life with friends*. Dyma gymhelliad sy'n ehangach ei apêl, ac yn debyg o effeithio ar bob dysgwr pwy bynnag y bo. Wrth ymdrin â newyddion y dydd peth cymharol hawdd oedd rhestru'r digwyddiadau y cyfeirir atynt yn gyson yn y newyddion. Ond nid yw'n bosibl bod mor bendant a gwrthrychol wrth ymdrin ag ymddiddan pobl â'i gilydd. Ni ellir ond dyfalu'n unig pa bynciau a fydd o ddiddordeb iddynt ac y dymunant eu trafod drwy gyfrwng y Gymraeg, a bydd y canolbwyntiau diddordeb yn amrywio o berson i berson. Mae rhai pynciau sylfagenol yn gyffredin ac o ddiddordeb i bawb. megis:

y tywydd,  
digwyddiadau'r dydd,  
y teulu,  
dyddiau'r wythnos, amser,  
dillad,  
rhannau'r corff,

ond mae'n anodd-penderfynu ar-feysydd diddordeb ar ôl hyn.

#### IV Y gair printiedig amserol:

Mae'r ymchwil a wnaed yn tynnu sylw at yr angen am:

- (i) adran ail iaith mewn cylchgronau a phapurau Cymraeg, a honno wedi ei pharatoi gan bobl sy'n hyddysg mewn graddio iaith at ei dysgu.
- (ii) adran ail-iaith reolaidd, fel y ceir eisoes yn rhai o bapurau'r De, mewn papurau Saesneg lleol a chenedlaethol.
- (iii) ddatblygu'r ddarpariaeth uniongyrchol ar gyfer y farchnad ail iaith, yn llyfrau, cylchgronau a chymhorthion clyweled.

Ymddengys yn eglurach, beunydd fod angen canolfan parhau profesyddol i gynorthwyo yn y cyfeiriadau hyn, canolfan heb gysylltiad uniongyrchol ag unrhyw goleg neu sefydliad unigol, sefydliad a fydd yn uno ac yn cyfeirio'r ymchwil a'r gweithgarwch beunyddiol a wneir yn y maes hwn, gan fod perygl parhaus i'r hyn a wneir fynd ar chwâl yn, y gwahanol sefydliadau a chyfryngau sy'n ymwneud ag ef, ac o adael bylchau yn y deunyddiau a baratoir, bylchau na ellir fforddio eu gadael heb, eu llanw yn yr argyfwng presennol.

Ni ellir ond gobeithio y bydd i'r pamffledyn hwn arwain i gyflymu'r broses o gael dysgwyr i ddeall a defnyddio'r Gymraeg. Cofiw'n mai'r cymhelliad gorau yw blasu llwyddiant wrth geisio dysgu.



Cyhoeddiadau y cyfeiriwyd atynt.

Jones, R. M. *Graddio Geirfa*, Cyfadran Addysg Coleg Prifysgol Cymru, 1962.

ibid.

Bongers, Herman. "The History and Principles of Vocabulary Control," *Wocopi-Woerden*, Holland, 1947. "One of the features of the Berlitz Method that struck him [Harold Palmer], was the extremely limited vocabulary of its Book 1, more particularly of the 14 lessons of its Pt. 1, for this was also his first acquaintance with the idea of a Minimal Vocabulary (indeed as far as we know, Berlitz was the first to select one)." td. 73.

Palmer, H. E. *The Principles of Language Study*, Harrap & Co. Ltd. 1921, tt. 113-14.

Hagbolt, Peter, *The Teaching of German*, D. C. Neath & Co., Boston, 1940. td. 87.

Gougenheim, G., et al. "Le Français Fondamental", *Education in Europe*, IV. 2, 1963. "But it became clear to us that although a frequency list might help in the compilation of a basic vocabulary, it was not a basic vocabulary in itself." td. 58.

Michéa, René. "Basic Vocabulary," *Education in Europe*, IV. 3, 1964. "A word list that is essentially practical in nature and intended for conversation in the most common place circumstances of every-day life, must inevitably contain an adequate number of concrete words." td. 23.

Jones, Bobi, *Yr Athro*, Ebrill 1964, td. 216.

Halliday, M. A. K. et al. *The Linguistic Sciences and Language Teaching*, Longmans, 1964. "The technique of vocabulary selection reached their most sophisticated form in the work which led to the devising of *Le Français Fondamental*, or 'Basic French'; the team of workers responsible for this research have not only uncovered and recognized the advantages of vocabulary selection but have also identified some of the disadvantages." td. 190.

"By asking several thousand school children in widely separated regions of France to carry out this simple task [llanw'r holiadur], on each of the topics, the team collected a very large number of word lists. . . . The quality of being mentioned by a high proportion of those answering the questionnaire for a given topic was termed *disponibilité*, which might be translated as 'availability', thus the word 'table' is more disponible as a word relating to furniture than is 'vitrine'." td. 195.

Jones, Bobi, *Yr Athro*, Ebrill 1964, td. 217.

ibid.

Jones, Bobi, *Yr Athro*, Ionawr 1965, td. 156.

ibid.

Gw. Jones, R. M. *Graddio Geirfa*, Cyfadran Addysg Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 1962.

James, Dan Lynn, *Hwyl Gyda'r Gymraeg*, Gwasg Gomer, 1965.

# COPI O'R HOLIADUR

## Survey of Vocabulary Selection Adult Learners of Welsh

In order to improve the present selection of vocabulary for courses in Welsh, we would be glad to know what uses or purposes learners have in mind when learning the language.

Please aid us by answering the questionnaire in the manner described below:

*Encircle in ink or pencil the appropriate mark according to approximate importance.*

- |     |                |    |              |
|-----|----------------|----|--------------|
| 100 | Very important | 75 | Important    |
| 50  | Average        | 25 | Of some use. |
| 0   | No use.        |    |              |

*Answer as quickly as possible ALL SECTIONS.*

Please note: (i) Place of evening class .....

(ii) Your occupation .....

<b>A. Radio and Television</b>					
A1. News .....	100	75	50	25	0
A2. Drama .....	100	75	50	25	0
A3. Light Entertainment .....	100	75	50	25	0
A4. Sport .....	100	75	50	25	0
<b>B. Family and Home</b>					
B1. Marriage to a Welsh-speaking partner .....	100	75	50	25	0
B2. Use with children .....	100	75	50	25	0
B3. Elderly members in the family .....	100	75	50	25	0
<b>C. To read Welsh</b>					
C1. Light popular reading—news-papers, novels .....	100	75	50	25	0
C2. Scholastic works .....	100	75	50	25	0
C3. General literature .....	100	75	50	25	0
<b>D. Business and Profession</b>					
D1. Agriculture .....	100	75	50	25	0
D2. Shop and trade .....	100	75	50	25	0
D3. Doctor .....	100	75	50	25	0
D4. Education .....	100	75	50	25	0
D5. Bank .....	100	75	50	25	0
D6. Other .....	100	75	50	25	0

<b>E. Worship</b>					
Attending Welsh services (or listening to Radio and Television services).					
E1. Church .....	100	75	50	25	0
E2. Chapel .....	100	75	50	25	0
<b>F. Welsh Functions or Entertainment</b>					
F1. Eisteddfodau .....	100	75	50	25	0
F2. Cymanfa Ganu .....	100	75	50	25	0
F3. Noson Lawen .....	100	75	50	25	0
<b>G. Living in a Welsh Community</b>					
G1. Town .....	100	75	50	25	0
G2. Country .....	100	75	50	25	0
<b>H. Political and Social Reasons</b>					
H1. Local government .....	100	75	50	25	0
H2. Patriotism .....	100	75	50	25	0
H3. Joining in Social life with friends .....	100	75	50	25	0
<b>I. Interest in Languages</b>					
	100	75	50	25	0
<b>J. Other Reasons</b>					
	100	75	50	25	0

## PAMFFLEDI ADDYSGOL

(Cyhoeddi'r y gyfres gan Gyfadran Addysg Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, dan olygyddiaeth y Deon.)

- Pamffled 1* (1963). Pris 1/-.  
A Review of Problems for Research into Bilingualism and Allied Topics.
- Pamffled 2* (1954). Pris 1/-.  
A Welsh Linguistic Background Scale.
- Pamffled 3* (1954). Pris 2/-.  
The Construction and Use of Standardised Tests of Intelligence and Attainment with special reference to the problems of a mixed language area.
- Pamffled 4* (1957). Pris 1/-.  
Bilingualism and Non-Verbal Intelligence: A Study of Test Results.
- Pamffled 5* (1957). Pris 1/-.  
A Welsh Word Recognition Test.
- Pamffled 6* (1958). Pris 6d.  
The Sixth Form Education of Training College Applicants.
- Pamffled 7* (1960). Pris 4/6.  
Bilingualism: A Bibliography with special reference to Wales.
- Pamffled 8* (1961). Pris 1/6.  
The Presentation of Welsh as a Second Language.
- Pamffled 9* (1962). Pris 3/-.  
The Bilingual Method.
- Pamffled 10* (1962). Pris 4/6.  
Graddio Geirfa.
- Pamffled 11* (1962). Pris 4/6.  
Teaching Welsh as a Second Language. A Bibliography.
- Pamffled 12* (1963). Pris 2/6.  
Oral Examinations.
- Pamffled 13* (1965). Pris 2/6.  
Oedolion yn Dysgu Cymraeg. (Astudiaeth o Gymhellion.)

Mae'r Gyfadran hefyd yn cyhoeddi Bwletin blynyddol bob mis Chwefror yn disgrifio gweithgareddau'r Gyfadran ac yn ymwneud â phynciau addysgol arbennig, e.e., Addysg Grefyddol (1965), Drama yn, yr Ysgol (1964), Dysgu Mathemateg (1963), Dysgu Saesneg yng Nghymru (1962). Pris 1/6 y copi.

Gellir archebu copïau oddi wrth:  
*Copies may be ordered from:*

Y DEON,  
CYFADRAN ADDYSG COLEG PRIFYSGOL CYMRU,  
CAMBRIAN STREET,  
ABERYSTWYTH.